Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Cynhyrchiant**
# Briff Ymchwil

Tachwedd 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynhyrchiant
## Briff Ymchwil

Tachwedd 2025

**Awduron:**
Joanne Mccarthy, Peter Davies, Helen Jones, Tom Douch, Sam Jones a Josh Jenkins

Yr **unig ffordd** y gall gwlad wella ei safon byw yw cynyddu ei chynhyrchiant. Ond ers yr Argyfwng Ariannol Byd-eang, **mae'r twf yng nghynhyrchiant y DU wedi arafu** ac ar hyn o bryd mae cynhyrchiant mewn rhannau o Gymru **ymhlith yr isaf yn y DU,** fel y dangosir gan **ystadegau cynhyrchiant rhanbarthol blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol**.

Ar 20 Tachwedd 2025, mae'r **Pwyllgor Cyllid yn cynnal sesiynau ar gynhyrchiant** fel rhan o'i waith craffu ar **Gyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru**. Mae'r briff hwn yn cyflwyno gwybodaeth gefndir berthnasol.

# Contents

1. **Beth yw cynhyrchiant** ........ 1

2. **Data cynhyrchiant** ........ 3

3. **Cynhyrchiant y Sector Cyhoeddus** ........ 16

4. **Y GIG** ........ 21

5. **Atodiad A: The Productivity Institute - Cerdyn Sgorio Cynhyrchiant, Data a Mesurau** ........ 28

# 1. Beth yw cynhyrchiant

## Beth yw cynhyrchiant?

Yn ei bapur, **'The outlook for public sector productivity'** (Medi 2025), dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol ('IFS'):

> Productivity captures the relationship between the outputs or outcomes of a system and the inputs that system uses… Broadly, a system becomes more productive if it can produce more or better output or outcomes from the same level of inputs or if the same level of outputs or outcomes can be produced with a lower level of inputs.

## Pam mae twf mewn cynhyrchiant yn bwysig

Ym 1994, **dywedodd yr economegydd Paul Krugman**:

> Productivity isn't everything, but in the long run it is almost everything. A country's ability to improve its standard of living over time depends almost entirely on its ability to raise its output per worker.

Yn ei bapur, **'Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future'** (Ionawr 2025), dywedodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru:

> Productivity growth means increasing the value of goods and services produced with the same inputs. It is critical to real wage growth: it raises profits, enables increased employment and investment; supports increased tax revenues and improved public service delivery. It is thus a fundamental driver of the long-term welfare of the population and vital to achieving the aims of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Mae twf cynhyrchiant hefyd yn cael effaith ar ddyled y sector cyhoeddus. Yn ei adroddiad, **'Fiscal risks and sustainability'** (Medi 2024), dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ('OBR') y gallai cynnydd o bwynt canran cyfan mewn twf cynhyrchiant yn y DU, sydd, meddai, yn cyfateb i ddychwelyd i'r cyfraddau twf mewn cynhyrchiant a welwyd cyn yr argyfwng ariannol, gadw dyled islaw 100 y cant o gynnyrch domestig gros (GDP) am y 50 mlynedd nesaf.

## Sut y mae cynhyrchiant yn cael ei fesur?

### Cynhyrchiant llafur

Yn 2018, dywedodd **Silvana Tenreyro** (cyn Aelod o Bwyllgor Polisi Ariannol Allanol Banc Lloegr) fod **gwahanol fesurau o gynhyrchiant** ond bod y rhan fwyaf wedi canolbwyntio ar gynhyrchiant llafur cyfanredol, a ddiffinnir fel cyfanswm gwerth ychwanegol economi'r DU wedi'i rannu â chyfanswm yr oriau a weithiwyd. Mewn geiriau eraill, mae'n dweud wrthym faint mae gweithiwr nodweddiadol yn economi'r DU yn ei gynhyrchu bob awr.

At ddibenion ystadegau cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn diffinio **cynhyrchiant llafur** fel **allbwn wedi'i rannu â mewnbwn llafur**. Ble:

> Output is measured on a gross value added ('GVA') basis, which is an "estimate of the volume of goods and services produced by an industry within a geographic area, and in aggregate across industries for a geographic area".
>
> Labour inputs are measured in terms of workers, jobs ("productivity jobs") and hours worked ("productivity hours") for an industry within a geographic area.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio GVA yr awr o'i gymharu â chyfartaledd y DU fel un o'i Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol (rhif 9).

### Cynhyrchiant Ffactorau Cyfan

Mesur amgen yw **Cynhyrchiant ffactorau cyfan** (neu 'TFP'), sy'n ystyried bod allbynnau'n cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio cyfuniad o fewnbynnau llafur a chyfalaf. I fesur TFP, mae cyfanswm yr allbynnau yn cael ei rannu â chyfanswm y mewnbynnau. Fel arfer, mae hyn yn seiliedig ar fynegai sy'n galluogi newidiadau i gael eu mesur dros amser. Mae cynnydd yn y TFP yn adlewyrchu cynnydd mewn allbwn na ellir ei briodoli i gynnydd mewn mewnbynnau, e.e. gwelliannau technolegol, systemau ariannol mwy effeithlon etc.

# 2. Data cynhyrchiant

## Tueddiadau cynhyrchiant: Economi'r DU ac economïau datblygedig


**Gostyngodd cynhyrchiant yn y DU yn sylweddol** pan oedd yr Argyfwng Ariannol Byd-eang yn ei anterth yn 2008 a 2009.

Yn 2018, **nododd** Silvana Tenreyro ers yr argyfwng ariannol hwnnw, fod cynhyrchiant wedi bod yn cynyddu yn y DU fel y'i mesurir gan GDP fesul awr a weithiwyd, ond ar gyfradd sy'n sylweddol is na'r duedd cyn yr argyfwng, ac er bod economïau datblygedig eraill wedi gweld eu twf yn arafu, ymddengys ei fod yn amlycach yn y DU.

Yr enw cyffredin ar hyn yw "penbleth cynhyrchiant".


Mae Ffigurau 1 a 2 yn dangos yr allbwn blynyddol fesul awr a weithiwyd ar gyfer gwledydd G7 a'r Undeb Ewropeaidd (27 o wledydd o 1 Chwefror 2020), fel y'i mesurir gan 'GDP fesul awr a weithiwyd yn mesur cynhyrchiant llafur', a fynegir fel swm y cynnyrch domestig gros (GDP) mewn doleri'r Unol Daleithiau a gynhyrchir fesul awr o lafur. Mae Ffigur 1 yn dangos GDP yr awr yn 2023 ac mae Ffigur 2 yn dangos GDP yr awr ar gyfer 2004 i 2023, ill dau mewn doleri'r Unol Daleithiau.

**Ffigur 1: GDP yr awr ar gyfer gwledydd G7 a'r Undeb Ewropeaidd, 2023 ($)**




Ffynhonnell: **OECD, GDP fesul awr a weithiwyd ($) (fel ar 7 Hydref 2025)**

### Ffigur 2: GDP yr awr ar gyfer Gwledydd G7 a'r Undeb Ewropeaidd, 2024 i 2023 prisiau cyfredol ($)




Ffynhonnell: **OECD, GDP fesul awr a weithiwyd ($) (fel ar 7 Hydref 2025)**

Yng **Nghyllideb yr Hydref 2024**, nododd Trysorlys Ei Fawrhydi, yn y degawd cyn yr Argyfwng Ariannol Byd-eang, fod cyfradd **twf cyfartalog cynhyrchiant** yn y DU yn uwch na'r Almaen a Ffrainc, a dim ond ychydig yn is na chyfradd yr Unol Daleithiau.

Roedd **cyfradd twf cyfartalog cynhyrchiant y DU** yn y degawd ar ôl yr Argyfwng Ariannol Byd-eang (0.6%) yn arafach na Ffrainc (0.9%), yr Almaen (1.2%), a'r Unol Daleithiau (0.9%). Gellir **priodoli'r arafu mewn cynhyrchiant i dair elfen**:

- cynnydd mewn cyfalaf (y mae'r **SYG yn ei ddisgrifio** fel cynnydd yn nwyster cyfalaf fesul gweithiwr);
- cyfansoddiad y llafurlu (nodweddion y rhai a gyflogir, fel diwydiant, oedran ac addysg);
- Cynhyrchiant Ffactorau Cyfan (mesur o effeithlonrwydd y broses gynhyrchu sy'n cyfuno llafur a chyfalaf).

**Ychwanegodd Trysorlys Ei Fawrhydi**:

> Slower growth in capital deepening has played a larger role in the UK's slowdown compared to other countries.
>
> Business investment, a key component of capital deepening, has been particularly weak in the UK relative to other countries over the past few

decades. Since Q2 2010, real business investment in the UK has averaged 9.6% of GDP, the lowest level in the G7.


Nododd Trysorlys Ei Fawrhydi fod **sawl rheswm dros hyn** ond mae'n debygol bod lefelau uwch o ansicrwydd o ran polisi economaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu'n sylweddol ato ac mae buddsoddiad cyhoeddus wedi bod yn isel yn hanesyddol gyda newidiadau mynych i wariant wedi'i gynllunio.

## Ystadegau cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol

### Tueddiadau cynhyrchiant: Y DU a'i rhanbarthau

Mae Ffigur 3 yn dangos mesur y SYG ar gyfer cynhyrchiant llafur, GVA yr awr a weithiwyd mewn prisiau cyfredol, ar gyfer y DU a'i rhanbarthau o 2004 i 2023. Mae'n dangos bod y GVA fesul awr a weithiwyd ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon wedi bod yn gyson islaw y DU, Lloegr a'r Alban. O 2020 i 2023, y GVA fesul awr a weithiwyd yng Nghymru oedd yr isaf o holl ranbarthau'r DU.


**Ffigur 3: GVA fesul awr a weithiwyd, 2004 – 2023, prisiau cyfredol (£)**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Cynhyrchiant is-ranbarthol: mynegeion cynhyrchiant llafur yn ôl is-ranbarthau ITL2 ac ITL3 y DU**, Pris Cyfredol (wedi'i lyfnhau) GVA (B) fesul awr a weithiwyd (£); is-ranbarthau ITL2 ac ITL3, 2004 - 2023 (Mehefin 2025)

Dangosodd data cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol y SYG ar gyfer 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025) fod yr **allbwn fesul awr yn y DU ar ei isaf yng Nghymru**, 15.1% islaw cyfartaledd y DU. Dangosir hyn yn Ffigur 4.


**Ffigur 4: Allbwn fesul awr a weithiwyd o'i gymharu â chyfartaledd y DU, Y DU, 2023**




Ffynhonnell: **Ystadegau cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y DU: 2023**, (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025) [Fel ar 4 Tachwedd 2025]

Yng Nghymru gwelwyd **newid cyfartalog cronnus mewn cynhyrchiant o 0.2% rhwng 2019 a 2023**, o'i gymharu â 2.4% ar gyfer Gogledd-orllewin Lloegr (y mwyaf ar gyfer unrhyw ranbarth), 1.8% ar gyfer Gogledd Iwerddon a 0.3% ar gyfer yr Alban. Cynyddodd cynhyrchiant cyfartalog y DU 0.7% dros y cyfnod hwnnw. Dangosir hyn yn Ffigur 5.


**Ffigur 5: Newid cyfartalog cronnus mewn cynhyrchiant rhwng 2019 a 2023, y DU a rhanbarthau'r DU (%)**




Ffynhonnell: **Ystadegau cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y DU: 2023**, (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025)

Mae Ffigur 6 yn nodi'r **mynegeion cynhyrchiant llafur ar gyfer GVA fesul awr a weithiwyd ar gyfer 2023** gan ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025). Mae hyn yn dangos mai Sir y Fflint yw'r unig ardal awdurdod lleol lle'r oedd y cynhyrchiant yn uwch na chyfartaledd y DU (104.3% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 100) yn 2023.

**Ffigur 6: Mynegeion cynhyrchiant llafur GVA fesul awr a weithiwyd yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol, Cymru (%, DU=100)**




Ffynhonnell: **Cynhyrchiant llafur rhanbarthol ac is-ranbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Tabl A1), DU: 2023**, (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025), dadansoddiad gan Ymchwil y Senedd

## Problemau gyda'r data

Noda'r SYG fod problemau gyda'r data. Dywed y dylai defnyddwyr nodi y bydd **anwadalrwydd yn y data** yn tueddu i gynyddu wrth i'r ddaearyddiaeth fynd yn llai. Dywed hefyd:

> An additional caution for this year's release is that the data use input from the Annual Population Survey (APS). Because of issues with declining sample sizes, data from the 2023 APS were of reduced quality compared with other years.

> It should be noted that the APS is not the main input to the labour market inputs used in this publication. Nevertheless, because the APS is used for some selected aspects of the productivity jobs and productivity hours calculations then this means users should anticipate higher volatility than usual in the 2023 data.
>
> Additionally, users should be aware that the APS is currently awaiting a re-weighting to match to Census 2021 population. This re-weighting is due to take place in the year ahead and will mean that in next year's release some small revisions to the subregional productivity jobs and hours published in today's release are likely. [Ychwanegwyd pwyslais]

Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi **atal statws ystadegau swyddogol achrededig** ar gyfer yr amcangyfrifon y mae'r SYG yn eu cynhyrchu o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Fodd bynnag, noda'r SYG **nad yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yw'r brif ffynhonell** ar gyfer y mewnbynnau llafur a ddefnyddir yn ei data cynhyrchiant rhanbarthol blynyddol. Daw mewnbynnau llafur o **Arolwg y Llafurlu**.

Ym mis Hydref 2025, **nododd y Resolution Foundation**:

> …the official data on the growth in hours worked are wrong. They come from the Labour Force Survey (LFS), which has been plagued with a small and biased sample, especially since the pandemic. Happily, those problems are being fixed, and we think that the LFS is now broadly accurate when it comes to the number of people in work … But the data wasn't right a year ago, and this means we can't trust the LFS when it says that employment has been rising strongly over the past year.

**Yn ôl y Resolution Foundation** gan gywiro i ystyried mewnbynnau llafur sydd wedi cael eu camfesur, mae twf diweddar mewn cynhyrchiant yn y DU wedi bod yn gryf.

## The Productivity Institute

### Beth yw'r Productivity Institute?

**Sefydliad ymchwil sy'n cwmpasu'r DU gyfan**, a ddechreuodd ym mis Medi 2020 yw'r Productivity Institute ('TPI'). Caiff ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd Cymdeithasol yn y DU a'i gefnogi gan sefydliadau partner.

Gyda'i **bencadlys** yn Ysgol Fusnes Alliance Manceinion, mae'r **TPI** yn sefydliad ymchwil ledled y DU sy'n ymroddedig i ddeall ac ymdrin â heriau cynhyrchiant hirdymor y wlad.

## Cardiau Sgorio Cynhyrchiant

Mae **Cerdyn Sgorio Cynhyrchiant y TPI** yn graddio perfformiad cynhyrchiant is-ranbarthol y DU drwy ystod o ddangosyddion cynhyrchiant (GVA fesul awr o waith, Tacsonomeg o'i gymharu â'r DU a Thacsonomeg o'i gymharu â'r Lefelau Tiriogaethol Rhyngwladol ('ITL')) a 12 o ffactorau sy'n sbarduno cynhyrchiant ar draws y pedwar categori canlynol:

- perfformiad busnes;
- sgiliau a hyfforddiant;
- iechyd a llesiant; a
- buddsoddiad, seilwaith a chysylltedd.

**Tacsonomeg o'i gymharu â'r DU a thacsonomeg o'i gymharu â'r Lefelau Tiriogaethol Rhyngwladol** ('ITL') (Saesneg yn unig). Mae'r dangosydd cynhyrchiant hwn yn adlewyrchu pa mor dda y mae rhanbarth ITL3 yn perfformio o ran cynhyrchiant o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU. Mae hyn yn cael ei fesur ar ddau ddimensiwn. Y cyntaf yw cymharu cynhyrchiant llafur yn y flwyddyn cerdyn sgorio gyfredol, wedi'i fesur fel Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul awr a weithiwyd, â chyfartaledd y DU. Yr ail yw cymharu'r twf mewn cynhyrchiant o 2008 hyd at y flwyddyn gyfredol 2023 (wedi'i gywiro i ystyried newidiadau mewn prisiau) yn cael ei gymharu.

Mae rhagor o wybodaeth am ddangosyddion a sbardunau cynhyrchiant yn Atodiad A i'r papur hwn.

Daw'r data o'r flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer y dangosydd, sy'n amrywio o 2020-2025.

Mae'r TPI yn defnyddio codau lliw i ddangos a yw'r rhanbarth yn perfformio:

- yn well (gwyrdd): mae'r perfformiad yn uwch na 105% o'r cymharydd
- yn hafal i (ambr): mae'r perfformiad o fewn 95% a 105% o'r cymharydd
- yn waeth (coch): mae perfformiad yn is na 95% o'r cymharydd

## Cerdyn Sgorio Cynhyrchiant: Rhanbarthau'r DU

Mae Ffigur 7 yn dangos cerdyn sgorio 2025 gydag asesiad ar gyfer y DU a'i rhanbarthau.

O ran mesurau cynhyrchiant, **mae GVA yr awr a weithiwyd yng Nghymru yn llai na 95% o Werth Ychwanegol Gros y DU** (Cymru £35.15; Y DU: £41.87). Mae'r TPI yn asesu bod **Cymru'n 'dal i fyny'** mewn perthynas â'i pherfformiad o ran cynhyrchiant o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU.

Mae Ffigur 7 hefyd yn dangos bod **y data ar gyfer Cymru yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer pob sbardun cynhyrchiant ond tri**, y mae'r data ar ei gyfer yn hafal i neu'n uwch na chyfartaledd y DU:

- **Perfformiad busnes – dwyster allforio**, lle mae Cymru'n sgorio'n uwch na'r DU (Cymru 34.1% o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU o 32.2%)
- Iechyd a llesiant – roedd 77.0% o'r **boblogaeth oedran gweithio** (16-64 oed) mewn cyflogaeth yng Nghymru, a asesir fel cyfradd sy'n hafal i'r DU (78.7%).
- **Iechyd a llesiant** – roedd 60.6% o **gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru o oedran gweithio** (16-64 oed), sy'n cael ei asesu fel hafal i'r DU (61.1%).

## Ffigur 7: Cardiau Sgorio Cynhyrchiant Rhanbarthol TPI 2025: Y deyrnas Unedig

**Ffigur 7: Cardiau Sgorio Cynhyrchiant Rhanbarthol TPI 2025: y Deyrnas Unedig**

| | | UKX | TLI | TLJ | TLM | TLH | TLD | TLK | TLN | TLE | TLG | TLC | TLF | TLL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | Sbardun Cynhyrchiant | Y Deyrnas Unedig | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | Yr Alban | Dwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | De-orllewin Lloegr | Gogledd Iwerddon | Swydd Efrog a Humber | Gorllewin Canol-barth Lloegr | Go-gledd-ddwyrain Lloegr | Dwyrain Canol-barth Lloegr | Cymru |
| **Cynhyrchiant** | Tacsonomeg o gymharu â'r DU | | Colli tir | Bwrw ymlaen | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny |
| | GYG fesul awr a weithiwyd | £41.87 | £53.96 | £45.22 | £41.28 | £39.69 | £39.31 | £38.75 | £36.88 | £36.82 | £36.02 | £35.82 | £35.61 | £35.15 |
| **Perfformiad Busnes** | Dwyster Allforio | 32.2% | 41.2% | 26.1% | 32.9% | 28.4% | 25.3% | 23.3% | 30.1% | 21.7% | 29.5% | 28.5% | 27.0% | 34.1% |
| | Busnesau Newydd | 11.0% | 12.6% | 9.9% | 10.6% | 10.6% | 11.6% | 9.8% | 8.3% | 11.0% | 11.3% | 11.6% | 10.8% | 10.3% |
| **Sgiliau a Hyfforddiant** | Sgiliau Isel * | 9.0% | 6.4% | 7.7% | 9.0% | 8.1% | 9.7% | 8.2% | 13.8% | 10.3% | 10.5% | 11.6% | 10.8% | 11.2% |
| | Sgiliau Uchel | 47.1% | 60.7% | 49.2% | 55.1% | 42.8% | 44.4% | 43.8% | 39.7% | 41.2% | 42.5% | 39.6% | 40.2% | 43.2% |
| **Iechyd a Llesiant** | Gweithgar | 78.7% | 78.6% | 81.7% | 77.5% | 80.6% | 76.7% | 80.9% | 75.3% | 76.8% | 78.8% | 75.8% | 78.4% | 77.0% |
| | Anweithgar oherwydd salwch* | 27.5% | 19.6% | 24.3% | 31.6% | 25.9% | 30.0% | 26.2% | 37.8% | 29.3% | 29.3% | 33.0% | 26.8% | 33.4% |
| | Oedran gweithio | 61.1% | 69.0% | 59.4% | 62.9% | 59.0% | 59.4% | 57.8% | 61.1% | 60.7% | 59.9% | 60.3% | 59.4% | 60.6% |
| **Buddsoddi, Seilwaith a Chysylltedd** | Cysylltedd 5G | 50.6% | 99.2% | 65.4% | 25.4% | 70.6% | 62.3% | 56.9% | 63.4% | 66.2% | 72.5% | 48.3% | 75.1% | 43.9% |
| | Cysylltedd Gigabit | 84.4% | 89.6% | 81.5% | 77.8% | 82.3% | 88.1% | 77.0% | 94.2% | 89.5% | 88.2% | 86.2% | 85.8% | 76.4% |
| | GFCF fesul swydd | £10,935 | £14,091 | £11,983 | £10,472 | £12,097 | £9,335 | £10,095 | £10,581 | £9,801 | £9,114 | £8,726 | £10,095 | £7,969 |
| | TGCh fesul swydd | £430 | £590 | £458 | £475 | £368 | £397 | £411 | £271 | £339 | £380 | £361 | £365 | £397 |
| | Asedau anniriaethol fesul swydd | £2,670 | £3,400 | £3,653 | £1,979 | £4,004 | £1,872 | £2,323 | £2,185 | £1,645 | £2,399 | £1,694 | £2,411 | £1,532 |

| **Allwedd** | |
|---|---|
| (glas tywyll) | **Gwell: uwch na 105% o'r DU** |
| (aur) | **Cyfartal: o fewn 95% o'r DU** |
| (coch) | **Gwaeth: is na 95% o'r DU** |
| (pinc golau) | **Dim data ar gael** |

Ffynhonnell: **Cardiau Sgorio a Dangosfyrddau Cynhyrchiant ITL3 y DU TPI Rhifyn 2025**

## Cerdyn Sgorio Cynhyrchiant: Cymru a'i rhanbarthau

Mae Ffigur 8 yn nodi'r asesiad ar gyfer 12 rhanbarth yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, ond mae hefyd yn cymharu tacsonomeg rhanbarthau Cymru â chyfartaledd y DU.

## Ffigur 8: Cardiau Sgorio Cynhyrchiant Rhanbarthol TPI 2025: Y Deyrnas Unedig

| | | TLL | TLL34 | TLL52 | TLL54 | TLL51 | TLL43 | TLL31 | TLL44 | TLL53 | TLL42 | TLL33 | TLL32 | TLL41 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | Sbardun Cynhyrchiant | Cymru | Sir y Fflint a Wrecsam | Caerdydd a Bro Morgannwg | Sir Fynwy a Chasnewydd | Y Cymoedd Canolog a Phen-y-bont ar Ogwr | Abertawe | Ynys Môn | Castell-nedd Port Talbot | Cymoedd Gwent | De-orllewin Cymru | Conwy a Sir Ddinbych | Gwynedd | Y Canolbarth |
| **Cynhyrchiant** | Tacsonomeg o gymharu â'r DU | Dal i fyny | Bwrw ymlaen | Dal i fyny | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Dal i fyny | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny |
| | Tacsonomeg o gymharu ag ITL1 | | Bwrw ymlaen | Colli tir | Bwrw ymlaen | Colli tir | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Ar ei hôl hi | Dal i fyny | Ar ei hôl hi | Dal i fyny |
| | GYG fesul awr a weithiwyd | £35.15 | £42.68 | £37.93 | £37.78 | £35.24 | £34.69 | £34.48 | £34.21 | £33.70 | £32.30 | £30.00 | £29.27 | £28.27 |
| **Perfformiad Busnes** | Dwyster Allforio | 34.1% | 42.9% | 23.2% | 29.6% | 54.5% | 29.4% | 19.6% | 49.5% | 33.5% | 54.4% | 11.6% | 13.3% | 23.4% |
| | Busnesau Newydd | 10.3% | 9.3% | 11.1% | 10.7% | 11.3% | 11.4% | 8.9% | 11.3% | 13.9% | 8.9% | 8.5% | 7.9% | 7.9% |
| **Sgiliau a Hyfforddiant** | Sgiliau Isel * | 11.2% | 12.8% | | 10.6% | 11.8% | 10.5% | 7.2% | 13.7% | 12.7% | 10.4% | 16.4% | 7.2% | |
| | Sgiliau Uchel | 43.2% | 42.7% | 50.8% | 49.0% | 35.4% | 47.7% | 39.8% | 36.4% | 39.1% | 42.1% | 40.5% | 45.2% | 43.5% |
| **Iechyd a Llesiant** | Gweithgar | 77.0% | 81.6% | 78.8% | 77.9% | 72.4% | 75.8% | 81.6% | 76.6% | 77.6% | 76.2% | 76.1% | 77.4% | 76.0% |
| | Anweithgar oherwydd salwch* | 33.4% | 36.1% | 22.5% | 22.7% | 43.0% | 34.4% | 26.4% | 45.4% | 39.1% | 33.1% | 37.2% | 22.8% | 29.1% |
| | Oedran gweithio | 60.6% | 61.6% | 63.2% | 57.1% | 61.3% | 63.6% | 57.0% | 60.7% | 62.6% | 56.7% | 56.6% | 62.4% | 58.2% |
| **Buddsoddi, Seilwaith a Chysylltedd** | Cysylltedd 5G | 43.9% | 43.9% | 87.8% | 59.8% | 72.9% | 66.3% | 51.0% | 64.8% | 85.5% | 55.5% | 29.7% | 38.8% | 28.3% |
| | Cysylltedd Gigabit | 76.4% | 78.5% | 91.1% | 82.9% | 77.9% | 88.5% | 48.1% | 79.3% | 78.3% | 63.8% | 80.2% | 57.2% | 50.5% |
| | GFCF fesul swydd | £7,969 | £7,015 | £9,647 | £6,735 | | £8,012 | £8,025 | £14,671 | £10,285 | £9,891 | £6,272 | £5,543 | |
| | TGCh fesul swydd | £397 | £597 | £449 | £359 | | £323 | £341 | £924 | £371 | £394 | £344 | £252 | |
| | Asedau anniriaethol fesul swydd | £1,532 | £1,565 | £1,948 | £1,375 | | £1,008 | £1,260 | £2,875 | £2,095 | £1,063 | £975 | £746 | |

| **Allwedd** | |
|---|---|
| (glas tywyll) | Gwell: uwch na 105% o'r rhiant-ranbarth ITL |
| (aur) | Cyfartal: o fewn 95% - 105% o'r rhiant-ranbarth ITL |
| (coch) | Gwaeth: is na 95% o'r rhiant-ranbarth ITL |
| (pinc golau) | Datganiad data wedi'i atal |

Ffynhonnell: Cardiau Sgorio a Dangosfyrddau Cynhyrchiant ITL3 y DU TPI Rhifyn 2025

Mae Ffigur 8 yn dangos bod GVA fesul awr a weithiwyd ar ei uchaf yn Sir y Fflint a Wrecsam (£42.68), ac yna yng Nghaerdydd a'r Fro (£37.93) a Sir Fynwy a Chasnewydd (£37.78). Mae ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru (£28.27) a Gwynedd (£29.27).

O ran y **dacsonomeg cynhyrchiant o'i gymharu â chyfartaledd y DU**, asesir bod Sir y Fflint a Wrecsam yn gwneud "cynnydd cyflym", gyda chynhyrchiant y rhanbarth eleni a'r twf yn ei gynhyrchiant yn uwch na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ranbarthau (gan gynnwys Caerdydd a'r Fro, Sir Fynwy a Chasnewydd, a Chymoedd Gwent) yn "dal i fyny". Mae hyn yn golygu bod cynhyrchiant y rhanbarthau yn y flwyddyn gyfredol islaw cyfartaledd y DU, ond mae'r twf yn eu cynhyrchiant yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae'r Cymoedd Canolog a Phen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Gwynedd "ar ei hôl hi", a ddiffinnir gan y ffaith bod cynhyrchiant y rhanbarthau yn y flwyddyn gyfredol a'u twf o ran cynhyrchiant yn is na chyfartaledd y DU.

O ran y **dacsonomeg cynhyrchiant o'i gymharu â Chymru**, mae Sir y Fflint a Wrecsam a Sir Fynwy a Chasnewydd yn gwneud "cynnydd cyflym", tra bod Caerdydd a'r Fro a Chanol y Cymoedd a Phen-y-bont ar Ogwr yn "colli tir", a ddiffinnir gan y ffaith bod cynhyrchiant y rhanbarthau eleni yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond mae eu twf o ran cynhyrchiant yn is na chyfartaledd Cymru. Mae Canolbarth Cymru a Chonwy a Sir Ddinbych yn "dal i fyny", ond mae gweddill y rhanbarthau "ar ei hôl hi".

Mae data ar gyfer y 12 sbardun cynhyrchiant yn amrywio ar draws y rhanbarthau yng Nghymru. Mae pob un yn well na chyfartaledd cenedlaethol Cymru mewn un neu fwy o sbardunau cynhyrchiant. Conwy a Sir Ddinbych a Chanolbarth Cymru sydd â'r nifer lleiaf (un yr un) a Chaerdydd a'r Fro sydd â'r nifer mwyaf (naw).

# 3. Cynhyrchiant y Sector Cyhoeddus

## Pam mae cynhyrchiant y sector cyhoeddus yn bwysig yng Nghymru?

Yng Nghymru, mae'r sector cyhoeddus yn gyfrannwr pwysig at yr economi. Mae'n cyflogi canran sylweddol o'r gweithlu. Yn ôl StatsCymru, roedd 30.5% o **gyfanswm y bobl sy'n gweithio yng Nghymru** yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 yn gweithio yn y sector cyhoeddus, o'i gymharu â 23.6% ledled y DU.

Yn ei adroddiad **'A Productive Approach: Finance Professionals Improving Productivity In the Public Sector'** (Tachwedd 2024), dywedodd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ('ACCA'):

> Effective public services are essential in supporting the growth of the wider economy. Governments and the public sector can create conditions for productivity gains across the economy through efforts to improve the economic environment – and shape the public realm in which the private sector operates. The public sector delivers a wide range of essential responsibilities, including the provision of education, healthcare, infrastructure and regulatory frameworks. It also plays an important part in the economy in its own right. The level of public spending varies across the world, but, in most countries, represents a significant share of the economy, measured as gross domestic product (GDP). In member countries of the Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD), public spending amounted to almost half of GDP (46.3% on average) in 2021 (OECD, 2023).

**Gweithiodd y TPI mewn partneriaeth â Capita Public Service** i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o gyflymu cynhyrchiant a chreu llwybr i wella effeithlonrwydd, cyfleoedd a chanlyniadau i bawb.

Yn eu hadroddiad ar y cyd, **'Making Public Sector Productivity Practical'**, dywedodd y ddau:

> Over the past decade, tighter spending controls have largely contributed to improvements in productivity, which essentially means doing more with less, for example, through pay reductions and maximising on existing resources.

Fodd bynnag, cyfeiriwyd at honiadau yn **Adroddiad y Sefydliad Iechyd, 'Agility: the missing ingredient for NHS productivity'** (2021), nad yw arbed costau er mwyn creu enillion cynhyrchiant yn gynaliadwy.

Fe wnaethant hefyd **gyfeirio at** adroddiad gan y **Sefydliad Siartredig Cyllid**

**Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Institute for Government, 'Performance Tracker 2019: A data-driven analysis of the performance of public services'** (Tachwedd 2019), a oedd yn dadlau bod cyfyngu ar godiadau cyflogau staff gan annog gweithwyr i fod yn fwy cynhyrchiol bron â chyrraedd ei derfyn, neu wedi gwneud hynny eisoes. **Ychwanegwyd**:

> The budgeted spending by government and local authorities was deemed just enough to meet demand while maintaining standards. Further expansion of those services or additional quality improvements would have been challenging even with a significant increase in budget.

**Nododd y TPI a Capita Public Service** fod effaith y pandemig a chynlluniau uchelgeisiol y llywodraeth i leihau anghydraddoldebau yn y rhanbarthau gwannach ledled y DU wedi rhoi mwy fyth o bwysau ar y galw am adnoddau yn y sector cyhoeddus.

## Mesur cynhyrchiant y sector cyhoeddus

### Mesurau a data

**Dywed ACCA**:

> The difficulty in measuring output in the public sector has meant that, historically, statisticians' approach was to assume expenditure on inputs was equal in value to the outputs. More sophisticated measures have been developed in recent decades, although the challenge of measuring outputs remains for collective services, such as defence and environmental protection.

### Mesur y SYG o gynhyrchiant y sector cyhoeddus

Mae'r SYG yn cynhyrchu **mesur cynhyrchiant y sector cyhoeddus. Noda'r IFS**:

> … this is an input productivity measure – the ONS measures the quantity of workforce, intermediate goods and services and capital services used by public services and compares this with a measure of the output of services. For some services, the ONS uses quality-adjusted output measures (such as GCSE grades or waiting times for operations); for others, it uses the quantity of outputs; and in some cases where outputs are difficult to define or measure, the quantity of outputs is measured as equal to the inputs used (allowing for no changes to productivity).


Ar gyfer **mesur cynhyrchiant y sector cyhoeddus yn 2022**, mesurwyd 49% o'r

allbwn mewn meintiau gyda rhywfaint o addasiad ar gyfer ansawdd, mesurwyd 11% mewn meintiau heb addasiad ansawdd, a mesurwyd 40% fel un sy'n hafal i fewnbynnau (y mae 9 pwynt canran ohono yn dal i gael ei addasu o ran ansawdd wedi hynny).

## Beth mae data'r SYG yn ei ddangos?

Yn ei **data blynyddol ar gyfer cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus y DU ar gyfer 2022** (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025), adroddodd y SYG fod **cynhyrchiant blynyddol gwasanaeth cyhoeddus y DU** wedi cynyddu 4.0% yn 2022, yn dilyn cynnydd diwygiedig o 7.3% yn 2021 a gostyngiad o 14.1% yn 2020. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd bod cyfanswm **cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus** tua 4.1% yn is yn 2022 na'i uchafbwynt cyn y coronafeirws (COVID-19) yn 2019. Dangosir hyn yn Ffigur 9.

**Ffigur 9: Mesur y SYG o gyfanswm cynhyrchiant sector cyhoeddus y DU, 1997 i 2022**




Ffynhonnell: **Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus: cyfanswm, Y DU, 2022**.

Mae'r SYG yn adrodd bod y twf mewn **cynhyrchiant yn sector cyhoeddus y DU yn 2022** i'w briodoli i ostyngiad o 3.5% mewn mewnbynnau, sef y gostyngiad cyntaf ers 2016 a'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn mewnbynnau ers i'r gyfres ddechrau ym 1997. **Noda'r** SYG mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod

rhai agweddau ar wariant ychwanegol yn gysylltiedig â'r ymateb i bandemig y coronafeirws wedi cael eu dileu'n raddol, a bod chwyddiant uwch mewn costau mewnbwn wedi lleihau mewnbwn.

Roedd **twf positif mewn allbwn** o 0.4% (0.3 pwynt canran) i'w briodoli'n bennaf i welliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion.

Noda'r SYG mai gofal iechyd ac addysg yw'r **ddau gyfrannwr mwyaf at dwf cynhyrchiant**, o hyd, sef y maes mwyaf a'r trydydd maes mwyaf o bwysoliad gwariant. Fodd bynnag, mae'r SYG yn adrodd bod sawl maes gwasanaeth arall wedi gweld **cynnydd yn eu cyfraniadau at dwf yn 2022**.

Gwelwyd twf o 0.4% yn yr amcangyfrifon blynyddol wedi'u diweddaru o allbwn a addaswyd yn ôl ansawdd (QA), y mae'r SYG yn ei **ddisgrifio fel mesur mwy cyflawn**, a gwelwyd twf o 0.1% yn yr allbwn nad addaswyd yn ôl ansawdd (NQA) yn 2022. **Dywed** y SYG fod hyn yn awgrymu bod gwasanaethau cyhoeddus wedi gallu cynyddu lefel ac ansawdd eu hallbwn, hyd yn oed wrth i fewnbynnau ostwng. Fodd bynnag, mae'r twf hwn islaw'r lefelau a welwyd yn y blynyddoedd cyn 2020.

**Noda'r IFS**:

> Despite some 'bounceback' in 2021 and 2022, initial estimates for 2023 and 2024 suggest that public sector productivity is stagnating and has not yet recovered to its 2019 level.

Nid yw'r SYG yn cyhoeddi data cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru yn unig.

## Problemau gyda'r data

Er bod yr IFS **yn dweud** bod mesur cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus y SYG yn rhoi'r darlun mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael o newidiadau yn y gorffennol diweddar, **noda** nad yw'r mesurau'n berffaith o bell ffordd. Mae'n **cyfeirio** at dros 100 o argymhellion a wnaed yn dilyn **Adolygiad y SYG o fesur cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus** ar gais, yn 2023, gan Ganghellor y Trysorlys ar y pryd. Mae'r IFS yn nodi bod yr ONS wedi dechrau rhoi'r newidiadau ar waith, **gan ychwanegu**:

> It is therefore possible that productivity might have increased faster over time than the ONS estimates … suggest, if there are growing or improving public

> services that are currently poorly measured. It is also possible that productivity growth has been slower than estimated, if falls in service quality since the start of the COVID-19 pandemic are not fully captured, for example.

**Mae'r SYG hefyd yn nodi**:

> While most of the statistics … are **accredited official statistics**, the estimates presented for Social Security Administration and Tax Administration are labelled as **official statistics in development** because they are new and undergoing further development with suppliers and users.
>
> In considering these estimates and associated revisions over time, users should be aware that these have been affected by development work on public service productivity measurement for the whole public sector, carried out by the **Public Services Productivity Review**.

Mae'r SYG **yn cyflwyno** gwybodaeth am welliannau penodol y mae wedi'u gwneud i'r data.

# 4. Y GIG

## Tystiolaeth flaenorol i'r Pwyllgor

Mewn perthynas â chynhyrchiant yn y GIG, ym mis Ionawr 2025 **dywedodd yr IFS** wrth y Pwyllgor Cyllid:

> NHS productivity is still well down on pre-COVID levels. I'm being a bit controversial here, but I think, to me at least, it's clear that the Welsh NHS is performing worse on several key metrics than England, for example, which, of course, already is performing pretty poorly.


## Ystadegau cynhyrchiant sector cyhoeddus y SYG - gofal iechyd

Mae **ystadegau swyddogol y SYG yn cael eu datblygu ar gyfer cynhyrchiant y sector cyhoeddus** dangosodd fod cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus yn y maes gofal iechyd yn y DU wedi cynyddu 3.9% yn 2022. Roedd hyn oherwydd bod y gostyngiad mewn mewnbynnau (8%) yn fwy na'r gostyngiad mewn allbwn (4.4%). Noda'r SYG fod y cynnydd mewn cynhyrchiant, a ddisgrifiodd fel **yr ail gynnydd mwyaf ers i'r gyfres ddechrau ym 1997**, yn dilyn twf o 14.5% yn 2021. Dangosir hyn yn Ffigur 10.

**Eglura'r SYG**:

> Although **Healthcare productivity has increased in both 2021 and 2022, productivity remains around 9.9% below 2019 levels, following a record fall of 24.2% in 2020 after the coronavirus (COVID-19) pandemic**. During the pandemic many services were delivered in a different way than previous and following years, with additional inputs necessary and mandatory restriction limiting output for certain services. Importantly, while output increased by 7.5% between 2019 and 2022, hitting an all-time peak in 2021, inputs saw a much larger rise (19.3%), which led to a fall in productivity. [Ychwanegwyd pwyslais]

## Figure 10: Indices for Healthcare inputs, outputs and productivity, UK, 1997 to 2022 (1997=100)




Noder:

Mae'r **amcangyfrifon o gynhyrchiant Gofal Iechyd y DU** yn seiliedig ar dwf allbwn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn unig ers 2020, oherwydd nid yw data wedi bod ar gael i gyfrifo allbwn ar gyfer Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r SYG yn nodi, o ystyried bod Gogledd Iwerddon yn cyfrif am gyfran fach o gyfanswm y DU (tua 3% yn 2019), nad oes disgwyl i hyn fod wedi ystumio'r mesurau cyfanredol a ddeilliodd o hynny.

Ffynhonnell: **Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus: cyfanswm, Y DU, 2022**.

Nid yw'r SYG yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru yn unig. Fodd bynnag, mae'n **cyhoeddi data cynhyrchiant ar gyfer gofal iechyd yn Lloegr**.

## Adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru

### Canfyddiadau ac argymhellion

Dywedodd **adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru** (Ebrill 2025):

> Er bod sawl lens ar berfformiad a chynnydd clir ar gynhyrchiant ym mhum ffrwd waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd (VSB), ar hyn o bryd nid oes un mesur cenedlaethol o gynhyrchiant cyffredinol GIG Cymru.

O ystyried hyn, **ychwanegodd**:

> … nid yw'n bosibl gwneud asesiad ar sail tystiolaeth o'r cynhyrchiant cymharol, na graddfa'r gwelliant mewn cynhyrchiant dros amser, na gosod disgwyliadau cliriach ar wella cynhyrchiant i sicrhau'r gwerth gorau posibl i drethdalwyr Cymru.

**Cynigiodd y dylid cynhyrchu model cenedlaethol i olrhain cynhyrchiant** cyn y "gyllideb genedlaethol nesaf" i helpu i lywio penderfyniadau gwariant a gofynion cynhyrchiant. **Dywedodd y dylai hyn olrhain Cynhyrchiant Ffactorau Cyfan cenedlaethol o leiaf** a chael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n caniatáu ar gyfer metrigau a thargedau cynhyrchiant ar lefel bwrdd iechyd ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, acíwt ac iechyd meddwl.

Awgrymodd y gallai'r model, a sefydlwyd gan y SYG ar gyfer y DU a Lloegr, fod yn **fan cychwyn defnyddiol i'w ystyried**. **Argymhellodd y**:

> …dylid datblygu model cynhyrchiant ffactorau cyfan a model cynhyrchiant y gweithlu ar gyfer GIG Cymru a'u rhoi ar waith cyn y gyllideb nesaf. Amserlen – o fewn 12 mis. **[Argymhelliad 22]**

Nododd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru hefyd y **cynnydd yn niferoedd a chyflogau staff cyfartalog GIG Cymru**:

- Bu cynnydd o 15.14% yn nifer y staff a gyflogir yn y Byrddau Iechyd ledled Cymru rhwng 2019 a 2024.
- Y gwariant blynyddol ar y gweithlu gan GIG Cymru yn 2023-24 oedd £5.9 biliwn, 58% o gyfanswm y gyllideb.

Er bod y gweithlu yn un o'r ffrydiau gwaith a oedd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, nododd ei fod **wedi cael llai o sylw** na'r pum maes blaenoriaeth arall. **Dywedodd y** Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru mai'r "eithriad nodedig yw'r gwaith rhagorol ar ddatblygu a gweithredu fframwaith rheoli asiantaeth a strategaeth recriwtio ryngwladol i gefnogi gostyngiad yn y ddibyniaeth ar weithlu asiantaeth". Ychwanegodd fod hyn wedi **lleihau gwariant ar asiantaethau** o £325m i £173m dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25.

**Nododd**:

> Mae'r cynnydd cyffredinol hwn mewn lefelau staffio ar draws GIG Cymru yn cael ei adlewyrchu mewn systemau gofal iechyd mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'r systemau gofal iechyd hyn hefyd yn gwneud llai o waith ar gyfartaledd ac yn rhoi sylw i lai o gleifion fesul aelod o staff nag a wnaethant bum mlynedd yn ôl.

Dangosir hyn mewn ffeithlun, sydd wedi'i atgynhyrchu yn Ffigur 11.

## Ffigur 11: Cymariaethau rhyngwladol o niferoedd a gweithgaredd staff y GIG



| | NHS | NHS SCOTLAND | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae niferoedd staff wedi cynyddu ers Covid... | +19% | +12% | +6% | +5% | +16% | +18% | +9% | +6% | +2% |
| ...ond nid yw gweithgarwch yn cynyddu yr un mor gyflym | -3.5% | -13% | -17% | -9% | +8% | +0.3% | -4% | -13% | -4% |
| ...ac felly mae llai o gleifion yn cael eu gweld fesul WTE | -19% | -24% | -21% | -16% | -7% | -15% | -12% | -18% | -6% |

**Mae'r data ar gyfer blwyddyn gyfan:** 2019 i 2023 neu'r data cyn Covid ac ar ôl Covid agosaf a gyhoeddwyd. Mae'r data gweithgarwch ar gyfer blwyddyn gyfan. Mae data'r gweithlu ar gyfer cyfnod adrodd cyffredin (e.e. mis Rhagfyr ym mhob blwyddyn adrodd).

**Staffio** = Cyfanswm WTE. Lle bo modd, mae hyn yn cyfeirio at FTE clinigol (Meddygon). Fel arall, mae'n cyfeirio at yr holl staff ysbyty clinigol; neu holl staff WTE gofal iechyd.

**Gweithgarwch** = gweithgarwch ysbyty: Cleifion mewnol a dderbyniwyd neu gyfnodau ymgynghorwyr a ddaeth i ben (Lloegr; ar gyfer Singapore, mae'n weithgarwch cleifion mewnol ac allanol.

**Ffynhonnell:** ystadegau llywodraethol cenedlaethol; adroddiadau blynyddol

Ffynhonnell: '**Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru' (Ebrill 2025)**

**Nododd** Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru:

> Byddai'n syndod pe na bai Cymru'n dangos patrwm tebyg, er nad oes dadansoddiad manwl wedi'i gyhoeddi eto. Argymhellir y dylid cwblhau'r dadansoddiad yma o fewn 3 mis i dderbyn yr adroddiad hwn. Dylid adrodd ar hyn wedyn bob chwarter fel data tueddiadau yn adroddiad perfformiad safonol misol y bwrdd iechyd.

Er nad yw'n glir, mae hyn yn awgrymu bod y data yn Ffigur 11 ar gyfer y 'GIG' yn cyfeirio at 'GIG Lloegr'.

**Argymhellodd** y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru:

> O gylch cyfarfod y bwrdd iechyd ym mis Mehefin ar gyfer blwyddyn 2025/26 ac ymlaen, dylid adrodd ar nifer y gweithlu cyfwerth ag amser llawn a data cynhyrchiant i gyfarfod cyhoeddus misol pob Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys data ar weithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol a'r rhai a gyflogir gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) a gweithlu contractwyr annibynnol eraill. Amserlen – o fewn 3 mis. [Argymhelliad 23]

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Derbyniodd Llywodraeth Cymru** argymhelliad y Grŵp Cynghori Gweinidogol i gynhyrchu a gweithredu model cynhyrchiant ffactorau cyfan a model cynhyrchiant gweithlu ar gyfer GIG Cymru cyn y gyllideb nesaf (Argymhelliad 22). Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod y "byddai mantais o ddatblygu mesur cryfach o gynhyrchiant ar gyfer y system gyfan, ochr yn ochr â'r camau manwl sy'n cael eu cymryd", **nododd**:

> Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf, gan ystyried pa fodel a methodoleg i'w defnyddio, ac a ddylid datblygu'n fewnol neu ddefnyddio modelau allanol.

Ar 16 Hydref, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, wrth y Pwyllgor Cyllid y **byddai'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Ebrill 2026** ac y byddai gan Lywodraeth Cymru yn y maes iechyd, yn sicr, fesur mwy soffistigedig y gall ei ddefnyddio ledled Cymru a fydd yn caniatáu iddi olrhain y problemau cynhyrchiant cywir, yn hytrach na wynebu'r risg o olrhain y rhai anghywir.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn **argymhelliad y Grŵp Cynghori Gweinidogol ynghylch Byrddau Iechyd Lleol yn adrodd ar ddata niferoedd y gweithlu** ym mhob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd Iechyd (Argymhelliad 23). Fodd bynnag, cysylltodd ei gamau gweithredu â'i ymateb i'r argymhelliad ynghylch cynhyrchu a gweithredu model cynhyrchiant ffactor cyfan a model cynhyrchiant gweithlu ar gyfer GIG Cymru (Argymhelliad 22). **Dywedodd**:

> I gyflawni'r argymhelliad hwn, rydyn ni'n cynnig, ar ôl datblygu'r model cynhyrchiant y gweithlu neu'r model cynhyrchiant cyfan yn Argymhelliad 22, bod hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer adrodd ar lefel bwrdd iechyd. Yn y cyfamser, dylai cyrff y GIG archwilio ac ystyried yr argymhelliad hwn, a mabwysiadu dull lleol os yw'r data'n caniatáu hynny, ac fel cam sylfaenol dylent adrodd i gyfarfodydd bwrdd cyhoeddus misol ar gynnydd y camau galluogi yn Fframwaith Cynllunio 2025/28 sy'n gysylltiedig â gwella cynhyrchiant.

# 5. Atodiad A: The Productivity Institute - Cerdyn Sgorio Cynhyrchiant, Data a Mesurau

Ffynhonnell: **Cardiau Sgorio a Dangosfyrddau Cynhyrchiant TPI UK ITL3 Rhifyn 2025, Ffynonellau a Dulliau (Awst 2025), The Productivity Institute**

## Cynhyrchiant

Mae'r categori hwn yn dangos 3 dangosydd sy'n mesur perfformiad cymharol cynhyrchiant llafur ar draws rhanbarthau ITL3, gan ei gymharu â rhanbarthau ITL3 eraill, y rhiant-ranbarth ITL1, a'r DU gyfan. Mae'r dangosyddion hyn yn ystyried lefel cynhyrchiant llafur yn y flwyddyn gyfredol a thwf cynhyrchiant ar gyfer y cyfnod o 2008 hyd at y flwyddyn gyfredol. Mae'r data ar gyfer y categori hwn yn deillio o Set ddata cynhyrchiant Is-ranbarthol y SYG, a ryddhawyd ym mis Mehefin 2025.

### Tacsonomeg o'i gymharu â'r DU

Mae'r dangosydd cynhyrchiant hwn yn adlewyrchu pa mor dda yw perfformiad rhanbarth ITL3 o ran cynhyrchiant o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol y DU. Mae hyn yn cael ei fesur ar ddau ddimensiwn. Yn gyntaf, mae cynhyrchiant llafur yn y flwyddyn cerdyn sgorio gyfredol, wedi'i fesur fel Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yr awr a weithiwyd, yn cael ei gymharu â chyfartaledd y DU. Yn ail, mae'r twf mewn cynhyrchiant o 2008 hyd at y flwyddyn gyfredol 2023 (wedi'i gywiro i ystyried newidiadau mewn prisiau) yn cael ei gymharu â chyfartaledd y DU. Drwy gymharu cynhyrchiant y rhanbarth ar hyd y ddau ddimensiwn hyn, gellir llunio Tacsonomeg o berfformiad cynhyrchiant cymharol fel a ganlyn:

- Ar ei hôl hi: Mae cynhyrchiant y rhanbarth yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r twf mewn cynhyrchiant islaw cyfartaledd y DU.
- Dal i fyny: Mae cynhyrchiant y rhanbarth yn y flwyddyn gyfredol yn is na chyfartaledd y DU, ond mae'r twf mewn cynhyrchiant yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Colli tir: Mae cynhyrchiant y rhanbarth yn y flwyddyn gyfredol yn uwch na chyfartaledd y DU, ond mae'r twf mewn cynhyrchiant yn is na chyfartaledd y DU.
- Cynnydd cyflym: Mae cynhyrchiant y rhanbarth yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r twf mewn cynhyrchiant yn uwch na chyfartaledd y DU.

### Tacsonomeg sy'n berthnasol i'r rhanbarth ITL1 (Cymru)

Mae'r dangosydd cynhyrchiant hwn yn adlewyrchu pa mor dda y mae rhanbarth ITL3 yn perfformio o ran ei gynhyrchiant o'i gymharu â chyfartaledd rhiant-ranbarth ITL1. Pennir y dacsonomeg gan ddefnyddio'r un fethodoleg ag uchod.

### Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd

Dyma'r dangosydd safonol o gynhyrchiant llafur, wedi'i fesur fel allbwn fesul uned o lafur, lle mae allbwn yn cael ei fesur fel Gwerth Ychwanegol Gros, a'r uned lafur yw awr a weithiwyd.

## Sbardunau cynhyrchiant

### Perfformiad busnes

Mae'r categori hwn yn dangos perfformiad busnes fel grym sy'n ysgogi cynhyrchiant rhanbarthol. Mae'r llenyddiaeth yn ystyried yn helaeth weithgaredd allforio busnes a'i ddeinameg fel y ddau ffactor pwysicaf sy'n pennu perfformiad busnes mewn lleoliad penodol. Mae deall deinameg gweithgareddau allforio yn hanfodol, gan eu bod yn chwarae rhan arwyddocaol mewn llunio nid yn unig y dirwedd economaidd ond hefyd mantais gystadleuol busnesau sy'n gweithredu yn yr ardal honno.

### Dwyster Allforio

Mae dwyster allforio rhanbarthol yn sbardun pwysig i gynhyrchiant gan fod cwmnïau sy'n cystadlu mewn marchnadoedd rhyngwladol yn tueddu i gynyddu eu cynhyrchiant drwy effeithlonrwydd prosesau a lleihau costau, ac felly, mae perfformiad allforio uwch gan gwmnïau lleol yn arwain at gynhyrchiant rhanbarthol uwch. Fe'i cyfrifir drwy adio gwerthoedd enwol masnach mewn nwyddau a masnach mewn gwasanaethau a'i rannu â gwerth enwol GDP rhanbarth yr ITL. Daw'r data masnach is-genedlaethol a data GDP o'r SYG ac maent ar gael ar lefel ddaearyddol ITL3. Gan fod y metrig hwn wedi'i lunio o amcangyfrifon ar wahân o allforion mewn nwyddau a gwasanaethau, gall problemau cyfrinachedd godi ar lefel ranbarthol fanwl ITL3, gan arwain at werthoedd coll yn y set ddata. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio'r un data â'r rhifyn blaenorol o'r cerdyn sgorio, gan nad oes unrhyw ddatganiad newydd wedi'i gyhoeddi.

## Busnesau Newydd

Mae'r gyfradd creu busnesau newydd yn dangos lefel y gweithgaredd entrepreneuraidd yn yr economi leol. Dywed llawer o astudiaethau fod entrepreneuriaeth, deinameg cwmnïau a chreu cwmnïau yn sbardunau pwysig ar gyfer cynhyrchiant rhanbarthol a ffyniant economaidd lleol. Mae set ddata'r SYG ar ddemograffeg busnes yn y DU yn cyflwyno data blynyddol ar gyfanswm cwmnïau gweithredol a chwmnïau newydd yn y DU yn ôl ardaloedd daearyddol, ar sail codau post. Mae'r codau hyn wedi'u mapio i ddaearyddiaethau ITL3, ac mae'r data wedi'u cyfuno yn unol â'r gwaith mapio hwn. Mae'r data wedi'u gwirio am gysondeb â'r cyfansymiau a adroddwyd ar lefel ITL1. Yna cyfrifir y sbardun cynhyrchiant hwn fel cymhareb y cwmnïau newydd i gyfanswm y cwmnïau gweithredol.

## Sgiliau a Hyfforddiant

Mae'r categori hwn yn cyflwyno cyfansoddiad y llafurlu lleol fel ffactor allweddol arall sy'n sbarduno cynhyrchiant rhanbarthol. Daw'r data hyn yn uniongyrchol o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG ar lefel NUTS 1 ac Awdurdod Lleol. Yna caiff data'r Awdurdod Lleol ei gyfuno i lefel ITL3. Mae'r dull hwn yn newydd ar gyfer y rhifyn hwn o'r cerdyn sgorio gan nad yw data NOMIS wedi'u diweddaru ar gyfer y codau ITL 3 sydd wedi'u haddasu. Mae'n bwysig cydnabod bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac yn cael ei ailbwysoli, fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar y sbardunau a ddefnyddir yn y cardiau sgorio hyn. Gan nad yw data ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gael o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG, fe'u cafwyd o **Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon** ('NISRA'). Mae diffiniadau o lefelau sgiliau NVQ ar gael o **Gov.uk**. Ar gyfer data 2023, mae lefelau NVQ wedi cael eu disodli gan lefelau RQF. Mae'r diffiniadau hyn ar gael yma.

## Lefel Isel o Sgiliau

Mae'r sbardun cynhyrchiant hwn yn cyflwyno canran y boblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed) sydd ag NVQ1 (RQF1) neu 'ddim cymwysterau'. O Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG, gellir cael data ar nifer y gweithwyr â 'dim cymwysterau', cymwysterau 'NVQ1(RQF1)', a phob person o oedran gweithio. Cyfrifir y sbardun Lefel Isel o Sgiliau ar gyfer pob rhanbarth ITL3 drwy adio nifer y gweithwyr â 'dim cymwysterau' a chymwysterau 'NVQ1(RQF)' a'i rannu â'r boblogaeth o oedran gweithio. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, dim ond canrannau'r gweithlu â chymwysterau ar lefel NVQ2(RQF2)+, lefel NVQ4+(RQF4+), a 'Dim cymwysterau' sydd ar gael o ddau ddatganiad data gwahanol ar lefel ITL3 fanwl. Mae canran y boblogaeth ranbarthol â Lefel Isel o Sgiliau wedi'i chyfrifo fel gweddill

gan ddefnyddio cyfanswm y boblogaeth oedran gweithio yn ôl rhanbarthau ITL3 ar gyfer Gogledd Iwerddon. Ar gyfer y sbardun hwn, mae gwerthoedd uwch yn llesteirio cynhyrchiant yn hytrach na'i sbarduno. Adlewyrchir hyn yn y tablau cardiau sgorio drwy gymhwyso'r cynllun lliw o chwith.

## Lefel Uchel o Sgiliau

Mae'r sbardun cynhyrchiant hwn yn cyflwyno canran y boblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed) sydd â chymhwyster ar lefel NVQ4+(RQF+). Rydym yn defnyddio'r un ffynonellau a methodoleg ag ar gyfer y dangosydd Lefel Isel o Sgiliau.

## Iechyd a Llesiant

Mae'r categori hwn yn adlewyrchu effaith iechyd a llesiant cyffredinol pobl yn y gweithlu ar gynhyrchiant. Fe'i mesurir yn ôl cyfraddau gweithgarwch, cyfraddau salwch, a chyfansoddiad oedran y boblogaeth o oedran gweithio. Fel gyda'r data ar Sgiliau a Hyfforddiant, mae'r data hyn yn cael eu casglu o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG ar lefelau NUTS 1 ac Awdurdod Lleol, a chyfrifir y data ITL3 drwy gyfuno data Awdurdodau Lleol. Eto, nid yw data ar gyfer Gogledd Iwerddon ar gael o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG; cafwyd y rheini gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon ('NISRA').

## Poblogaeth Economaidd Weithgar

Yn cynrychioli canran y boblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed) yn y flwyddyn gyfredol a oedd yn gweithio. Fe'i cyfrifir drwy rannu nifer y gweithwyr sy'n gweithio â chyfanswm y boblogaeth o oedran gweithio.

## Anweithgar oherwydd salwch

Mae hyn yn cynrychioli canran y boblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed) sy'n anweithgar oherwydd salwch. Noder fod mân anghysondebau yn y diffiniadau a ddefnyddir gan Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yr ONS, sy'n defnyddio'r diffiniad 'Sâl yn yr hirdymor', a diffiniadau Arolwg o'r Llafurlu NISRA, sy'n defnyddio 'Rhesymau iechyd'. Ar gyfer y sbardun hwn, mae gwerthoedd uwch yn llesteirio cynhyrchiant yn hytrach na'i sbarduno. Adlewyrchir hyn yn y tablau cardiau sgorio drwy gymhwyso'r cynllun lliw o chwith. Adeg y datganiad hwn, nid yw NISRA wedi cyhoeddi data 2023 am resymau anweithgarwch ar lefel ITL3 felly mae wedi'i adael

yn wag yn y cardiau sgorio.

### Oedran gweithio

Mae hyn yn cynrychioli canran y boblogaeth gyfan o oedran gweithio (16-64 oed) yn y flwyddyn gyfredol. Daw'r niferoedd ar gyfer y boblogaeth 16-64 oed o ddata Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG a data Arolwg o'r Llafurlu NISRA. Fodd bynnag, nid yw data poblogaeth Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y SYG nag Arolwg o'r Llafurlu NISRA yn cynnwys preswylwyr o dan 16 oed. Felly, daeth cyfanswm niferoedd y boblogaeth breswyl yn ôl rhanbarth ITL3 o set ddata'r SYG ar gynnyrch domestig gros rhanbarthol i gyfrifo canrannau'r boblogaeth o oedran gweithio ar gyfer rhanbarthau ITL3 ac ITL1. Adeg y datganiad hwn, nid yw NISRA wedi rhyddhau ei hamcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar lefel Awdurdod Lleol ar gyfer 2023 eto, felly nid yw data poblogaeth ITL3 ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi'u cynnwys yn y datganiad cynnyrch domestig gros rhanbarthol gan y SYG. Felly, nid yw'n bosibl cyfrifo canran oedran gweithio ar gyfer rhanbarthau ITL3 yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer 2023 ac felly mae wedi'i adael yn wag ar y cardiau sgorio.

### Buddsoddi, Seilwaith a Chysylltedd

Mae'r categori hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer cysylltedd fel sbardun cynhyrchiant. Mae data ar gysylltedd 5G a mynediad at wasanaethau sy'n gallu defnyddio Gigabit ar gyfer 2025 wedi'u casglu o adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd ac adroddiadau seilwaith Ofcom. Yn ogystal â hynny, mae buddsoddiadau mewn peiriannau a chyfarpar ar gyfer cynhyrchu yn ffactor allweddol o ran hwyluso a chryfhau cynhyrchiant. Mae buddsoddiadau mewn asedau anniriaethol hefyd wedi'u cynnwys yn y categori hwn, gan fod hyn yn cwmpasu cyfalaf sefydliadol, fel sgiliau rheoli a phatentau, a all helpu i wella capasiti cynhyrchiol ac effeithlonrwydd cyffredinol. Daw'r data ar fuddsoddiadau rhanbarthol o set ddata Arbrofol y SYG ar gyfalaf sefydlog gros rhanbarthol a gaiff ei ffurfio yn ôl y math o ased. Yn anffodus, nid yw'r set ddata hon yn cynnwys data ar gyfer y flwyddyn 2021 eto.

### Cysylltedd 5G

Mae hyn yn cynrychioli canran yr ardaloedd awyr agored lle mae o leiaf un gweithredwr yn darparu lefel uchel iawn o wasanaeth 5G. Mae gwybodaeth am wasanaeth ffonau symudol ar lefelau awdurdodau lleol ac unedol yn cael ei

chasglu gan y pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol ac yn cael ei dadansoddi gan Ofcom. Ar gyfer pob ardal, rydym wedi rhannu ardal ddaearyddol cysylltedd 5G, a adroddwyd hefyd yn nata Ofcom, â chyfanswm ardal ddaearyddol rhanbarth. Mae'r data'n cael eu casglu ar lefel Awdurdod Lleol ac yn cael eu cyfuno i ddata lefel ITL3 ac yna mae'r ganran yn cael ei chyfrifo.

### Mynediad at wasanaethau'r rhyngrwyd sy'n gallu defnyddio Gigabit

Mae hyn yn cynrychioli canran yr adeiladau sydd â chysylltiad gigabit. Gellir ei ystyried yn fesur o argaeledd seilwaith cysylltedd. Cyfrifir hyn drwy rannu nifer yr adeiladau sydd â chysylltiad gigabit â chyfanswm nifer yr adeiladau mewn rhanbarth. Mae'r data'n cael eu casglu ar lefel Awdurdod Lleol ac yn cael eu cyfuno i ddata lefel ITL3 ac yna mae'r ganran yn cael ei chyfrifo.

### Cyfalaf sefydlog gros a gaiff ei ffurfio ('0GFCF') fesul swydd

Math arall o fuddsoddiad busnes yw cyfanswm y buddsoddiad mewn asedau diriaethol ac anniriaethol, megis adeiladau, strwythurau, ffyrdd, cyfarpar trafnidiaeth, peiriannau, offer TGCh, a chynhyrchion eiddo deallusol fesul swydd. Mae set ddata ONS 2022 ar amcangyfrifon o gyfalaf sefydlog gros rhanbarthol arbrofol a gaiff ei ffurfio yn ôl y math o ased yn darparu data ar gyfer pob lefel ITL o ddaearyddiaeth. Daw nifer y swyddi ar gyfer pob rhanbarth ITL o ddatganiad Cynhyrchiant Is-ranbarthol y SYG, datganiad Mehefin 2025. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio'r un data â'r rhifyn blaenorol o'r cerdyn sgorio, gan nad oes unrhyw ddatganiad newydd wedi'i gyhoeddi.

### Buddsoddiad mewn TGCh fesul swydd

Gan ddefnyddio'r un ffynonellau ag ar gyfer y dangosydd Cyfalaf sefydlog gros a gaiff ei ffurfio fesul swydd, mae'r dangosydd buddsoddiad mewn TGCh fesul swydd yn mesur cyfanswm y buddsoddiad mewn cyfarpar TGCh fesul swydd ar gyfer y flwyddyn cerdyn sgorio gyfredol. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio'r un data â'r rhifyn blaenorol o'r cerdyn sgorio gan nad oes unrhyw ddatganiad newydd wedi'i gyhoeddi.

### Buddsoddiad mewn asedau anniriaethol fesul swydd

Gan ddefnyddio'r un ffynonellau ag ar gyfer y dangosydd Cyfalaf sefydlog gros a gaiff ei ffurfio fesul swydd, mae'r dangosydd Buddsoddiad mewn asedau anniriaethol fesul swydd yn mesur cyfanswm y buddsoddiad mewn cyfarpar TGCh fesul swydd ar gyfer y flwyddyn cerdyn sgorio gyfredol. Mae'r dangosydd hwn

## Crynodeb – Data

| Dangosydd | cyfrifiad |
|---|---|
| GVA/Oriau cyfredol | GVA / oriau * 1e6 / 52 |
| Dwyster Allforio | Allforion/ CMC |
| Busnesau Newydd | Busnesau Newydd / Busnesau Gweithredol |
| Sgiliau Isel | (Dim Cymwysterau + Lefel Isel o Gymwysterau)/ Oedran Gweithio |
| Economaidd Weithredol | Oedran Actif/ Gweithio |
| Anweithgar oherwydd salwch | Sâl/(Oedran Gweithio - Actif) |
| Oedran gweithio | Oedran Gweithio/Poblogaeth |
| Cysylltedd 5G | Ardal Ddaearyddol 5G / Cyfrif Picseli |
| Mynediad at wasanaethau rhyngrwyd sy'n gallu defnyddio Gigabit | Adeilad Gigabit / Pob Adeilad |
| GFCF fesul swydd | GFCF/ Swyddi * 1e6 |
| TGCh fesul swydd | TGCh / Swyddi *1e6 |
| Elfennau anniriaethol fesul swydd | Anniriaethol / Swyddi *1e6 |